



Ein cyf/Our ref: qA1404970

Richard Matthams  
Rheolwr Cynllunio Datblygu  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr  
Swyddfeydd Dinesig  
Stryd yr Angel  
Pen-y-bont ar Ogwr  
CF31 4WB

10 Rhagfyr 2021

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr: 2il Ddiwygiad Cytundeb Cyflawni Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'i diwygiwyd)**

Diolch am eich e-bost dyddiedig 24 Tachwedd yn gofyn am gytundeb i ddiwygio'ch Cytundeb Cyflawni.

Mae paratoi Cynllun Datblygu Lleol yn ddyletswydd statudol a roddir ar bob Awdurdod Cynllunio Lleol yng Nghymru. Mae'r cynllun yn offeryn corfforaethol ac yn fynegiant defnydd tir o flaenoriaethau awdurdod cynllunio lleol wrth ymdrin â materion cenedlaethol a lleol, ac un ohonynt yw pandemig y coronafeirws. Mae sefydlu cynllun datblygu cyfredol yn sail i union sylfaen y system gynllunio yng Nghymru ac yn atgyfnerthu ymrwymiad y Llywodraeth i system sy'n cael ei harwain gan gynllun.

Mae eich Cyngor yn cynnig estyniad ffurfiol i'r amserlen y cytunwyd arni ar hyn o bryd. Mae hyn yn arwain at oedi pellach o 9 mis i'r cam cyflwyno a llithriad cronol o 21 mis yn seiliedig ar ddyddiad mabwysiadu dangosol o fis Mawrth/Ebrill 2023. Er bod yr oedi hwn yn destun siom, rwyf wedi nodi ac ystyried eich rhesymau (adran 2.5) ac mae angen oedi er mwyn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd a gwneud y gwaith technegol angenrheidiol sydd ei angen i sicrhau'r siawns mwyaf posibl o gyflwyno cynllun cadarn i'w archwilio.


Prawf o 'gadernid' a gaiff ei ddefnyddio wrth ystyried y cynllun drwy'r archwiliad fydd a yw'n cadw at y cytundeb cyflawni y cytunwyd arno, gan gynnwys y Cynllun Cynnwys y Gymuned. Ar ôl ystyried eich cyflwyniad cytundeb cyflawni, gallaf **gadarnhau cytundeb** â'r amserlen ddiwygiedig (lle byddwch yn **cyflwyno'r cynllun i'w archwilio ym mis Mehefin 2022**) fel y darperir ar ei gyfer gan Adran 63(4) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a Rheoliad 9 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'i diwygiwyd). O ystyried yr ansicrwydd parhaus sy'n deillio o'r pandemig, ychwanegir

Planning Directorate • Cathays Park • Cardiff • CF10 3NQ Cyfarwyddiaeth Cynllunio • Parc Cathays • Caerdydd • CF10 3NQ

cyfnod llithriant pellach o 3 mis at y dyddiad cyflwyno arfaethedig sy'n ychwanegu ychydig o hyblygrwydd at yr amserlen.

Dylai'r fersiwn gyhoeddedig o'ch cytundeb cyflawni fod ar gael i'r cyhoedd yn unol â'r gofynion a nodir yn Rheoliad 10.

Yn gywir,



**Neil Hemington**  
Prif Gynllunydd  
Chief Planner

**CC:**

Gareth Denning  
[Gareth.Denning@bridgend.gov.uk](mailto:Gareth.Denning@bridgend.gov.uk)

Adam Provoost, Prif Swyddog Cynllunio Strategol/ Principal Strategic Planning Officer  
[Adam.Provoost@bridgend.gov.uk](mailto:Adam.Provoost@bridgend.gov.uk)

Jonathan Parsons, Rheolwr Cynllunio a Datblygu/ Planning and Development Manager  
[Jonathan.Parsons@bridgend.gov.uk](mailto:Jonathan.Parsons@bridgend.gov.uk)